


GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# GWNEUD LLE I NATUR

**Cynllun Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo cadernid ecosystemau**

Mae ***bioamrywiaeth*** yn golygu'r amrywiaeth o organebau byw ar y Ddaear

***Ecosystemau*** yw ein planhigion, anifeiliaid, aer, dŵr, mwynau a phriddoedd, a sut y maent yn rhyngweithio â'i gilydd

Mae ein hiechyd a'n lles yn dibynnu ar amgylchedd iach, sy'n cynnwys defnyddio ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a chefnogi ein ***bioamrywiaeth***. Mae ***ecosystemau*** yn hanfodol i iechyd a lles y cyhoedd ac yn darparu ein bwyd a'n meddyginiaethau, rheoleiddio ein dŵr ac yn rheoli clefydau, ac yn cefnogi ein gweithgareddau hamdden.


## CEFNDIR

Fel corff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Mae'n rhaid i ni gymryd y camau hyn oherwydd bod ein hecosystemau a'r bioamrywiaeth sy'n eu cynnal yn dirywio.

Mae '***Gwneud Lle i Natur***' yn nodi sut y bydd y sefydliad yn bodloni ei ddyletswydd. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi ei adroddiad cynnydd cyntaf erbyn 2019, ac wedyn bydd yn gwneud hynny bob tair blynedd.

<u>Cyfrannu at nodau llesiant Cymru ac amcanion llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru</u>

Mae gwaith y sefydliad i gefnogi bioamrywiaeth hefyd yn cyfrannu at y nod llesiant am 'Gymru gydnerth', yn ogystal â blaenoriaethau strategol/amcanion llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru (gweler isod).



## CAMAU GWEITHREDU

**Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodloni ei ddyletswydd bioamrywiaeth drwy bum maes ar gyfer gweithredu:**

# 1. Cefnogi ac ymgysylltu â'n staff

Byddwch y Newid

Be the Change

- Codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad ynghylch sut y gall staff gefnogi bioamrywiaeth yn eu rolau unigol, drwy ein mudiad/ymgyrch 'Y Ni yw'r Newid' (newid mewn ymddygiad ar lefel yr unigolyn), gan gynnwys datblygu eiriolaeth ar gyfer hyn i mewn i rôl 'cysylltiad lles'
- Hyrwyddo manteision gwirfoddoli i staff, yn enwedig yng nghyd-destun natur/ mannau gwyrdd, a chanolbwyntio ar sut mae gan hyn gysylltiadau amlwg â gweithgarwch corfforol
- Annog ein staff i archwilio sut y gellid symud syniadau gardd/mannau gwyrdd ymlaen i safleoedd lleol Iechyd Cyhoeddus Cymru (gan gynnwys y man yng Nghwr y Ddinas, safle Caerdydd)
- Gwneud ymrwymiad tymor hwy i ymchwilio sut y gellir cefnogi gwirfoddoli yn fwy ffurfiol yn y sefydliad

## 2. Caffael cynaliadwy



- Adolygu ein harcheb bapur gorfforaethol (ar gyfer argraffu'n fewnol) i wneud yn siŵr ei bod yn dod o goedwigoedd cynaliadwy, a phrynu llai o bapur
- Mynnu papur o ffynonellau cynaliadwy yn y fanyleb ar gyfer contract argraffu (allanol) newydd y sefydliad, ac annog cydweithwyr i leihau faint o bethau maen nhw'n eu hargraffu
- Adolygu ein cyflenwadau glanhau corfforaethol i wneud yn siŵr eu bod nhw'n fioddiraddadwy
- Chwilio am gyfleoedd pellach i gaffael nwyddau sy'n fioddiraddadwy a/neu sydd wedi cael eu gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailddefnyddio/ailgylchu (gan gynnwys caffael yn lleol), yn ogystal â lleihau'r angen lle bo modd gwneud hynny

# 3. Datblygu ein stad



- Chwilio am gyfleoedd i annog bioamrywiaeth a chefnogi gwenyn a bywyd gwyllt ar draws ein stad, er enghraifft plannu priodol ac amrywiol, ardaloedd blodau gwyllt ar gyfer peillwyr, a gadael glaswellt heb ei dorri mewn rhai mannau, ynghyd â chynnwys ein staff a gofyn am arweiniad arbenigol gan Gyfoeth Naturiol Cymru

- Sicrhau bod ein contractwyr yn defnyddio paent sy'n isel o ran gwenwyn ac allyriadau

# 4. Ein rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol



- Parhau â’r gwaith i leihau ôl troed carbon ein sefydliad, gan gynnwys defnyddio ein ‘mudiad’ newid mewn ymddygiad ar lefel yr unigolyn ‘Y Ni yw’r Newid’. Mae’r gwaith hwn yn cynnwys monitro ein hôl troed a chymryd camau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ei leihau

- Parhau i hyrwyddo camau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, gan gynnwys gwastraff bwyd, drwy ‘raglen cynaliadwyedd amgylcheddol’ y sefydliad

## 5. Cefnogi cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru



- Cyflwyno seminar i Gyfarwyddwyr Stadau a Chyfarwyddwyr Cynllunio GIG Cymru, ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, ynghylch cynyddu mynediad i fannau gwyrdd ar neu'n agos at dir GIG Cymru

- Sefydlu 'Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth' gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys cynllun gweithredu cysylltiedig

- Datblygu canllaw ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth ar gyfer GIG Cymru



5

# Sut rydym ni wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)

**Mae'r tabl isod yn amlygu sut rydym ni wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, drwy ei bum ffordd o weithio, wrth ysgrifennu ein cynllun bioamrywiaeth cyntaf:**

| | |
|---|---|
|  **Y tymor hir** | Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys bioamrywiaeth fel ystyriaeth wrth gyflawni ein strategaeth hirdymor |
|  **Atal** | Drwy ein 'rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol', rydym ni'n gweithio i leihau ein hôl troed carbon |
|  **Integreiddio** | Mae ein blaenoriaethau strategol/amcanion llesiant yn cynnwys 'Diogelu'r cyhoedd rhag clefydau heintus a pheryglon amgylcheddol i iechyd' |
|  **Cydweithio** | Rydym ni'n gweithio gyda sawl sefydliad partner ar ein cynllun bioamrywiaeth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Buddsoddi yn Natur Cymru, a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
|  **Cynnwys** | Mae amrywiaeth o gydweithwyr ar draws y sefydliad wedi cyfrannu at ein cynllun bioamrywiaeth, gan gynnwys cydweithwyr mewn meysydd corfforaethol, darparu gwasanaethau, a staff â chefndir mewn ecoleg |

# Sut mae ein camau yn cyfrannu at Gynllun Adfer Natur Cymru

| | 5 MAES AR GYFER GWEITHREDU AR FIOAMRYWIAETH IECHYD CYHOEDDUS CYMRU | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cefnogi ac ymgysylltu â'n staff | Caffael cynaliadwy | Datblygu ein stad | Ein rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol | Cefnogi cyrff cyhoeddus eraill |
| **AMCANION Y CYNLLUN ADFER NATUR** | | | | | |
| 1. Ymgorffori bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel | | | | | |
| 2. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau allweddol | | | | | |
| 3. Cynyddu cadernid ecosystemau | | | | | |
| 4. Mynd i'r afael â'r prif bwysau | | | | | |
| 5. Gwella tystiolaeth a dealltwriaeth | | | | | |
| 6. Llywodraethu a chefnogi wrth gyflawni | | | | | |

**Mae'r camau yn y cynllun hwn hefyd yn cyfrannu at fodloni blaenoriaethau strategol/amcanion llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru:**

- Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
- Gwella lles meddyliol a meithrin gwytnwch
- Hyrwyddo ymddygiadau iach
- Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf
- Diogelu'r cyhoedd rhag clefydau heintus a pheryglon amgylcheddol i iechyd
- Cefnogi datblygu system iechyd a gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan
- Datblygu a rhoi gwybodaeth a sgiliau ar waith er mwyn gwella iechyd a lles ar draws Cymru




**Rhagor o wybodaeth**

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys cynnig camau cynaliadwy pellach, anfonwch e-bost at yr Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd: **publichealth.sustainability@wales.nhs.uk**